

# Rheoli Cyrchfannau Cymru

1	2	3	4	5	6	7	8	9
Eich cymuned a gwella bywyd gwyllt lleol								



Croeso  
Cymru

## Datblygu naws arbennig i'ch busnes – pethau ymarferol i'w gwneud

[www.dmwales.com](http://www.dmwales.com)

Naws lle yw'r teimlad a gewch wrth ymweld â rhywle am y tro cyntaf – yr argraff gyntaf, yr olwg, y teimlad, yr awyrgylch, y bobl. Mae naws lle'n cynnwys y golygfeydd, y seiniau a'r profiadau arbennig sydd wedi eu gwreiddio mewn gwlad, y priodweddau unigryw a chofiadwy hynny sy'n atseinio ym meddyliau pobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Mae'r pethau sy'n creu naws lle yn niferus ac amrywiol, ond mae rhai camau syml ac ymarferol y gallwch eu cymryd i helpu eich ymwelwyr i ddarganfod beth yw bod yn Gymry, a beth sy'n gwneud Cymru'n lle mor unigryw ac arbennig.

### Y Gymraeg

Fel mewn llawer gwlad arall, mae dwyieithrwydd yn ffordd o fyw i lawer o bobl Cymru. Mae'r iaith fel arfer o ddiddordeb mawr i ymwelwyr a gall hyd yn oed pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg eu hunain eu helpu i ddeall ychydig arni. Gall ymadrodd a nodyn esboniadol yma ac acw atgoffa ymwelwyr eu bod mewn gwlad sydd â diwylliant unigryw ac iaith hynafol a hyfryd iawn.

- Defnyddiwch blatiau enw Cymraeg ar ystafelloedd gwsteion
- Rhowch enwau dwyieithog ar dai bach, y gegin, yr ardd, etc.
- Dysgwch Gymraeg drwy ddilyn cwrs am ddim ar lein, e.e. [www.saysomethinginwelsh.com](http://www.saysomethinginwelsh.com), a siarad ag ymwelwyr er mwyn ennyn eu diddordeb
- Mynnwch wefan ddwyieithog
- Cyflwynwch fwydlenni dwyieithog
- Cefnogwch staff sy'n dymuno dysgu'r iaith

### Diwylliant Cymru

Mae ymchwil wedi cadarnhau beth mae llawer ohonom yn ei glywed gan ymwelwyr bob dydd: maent wrth eu bodd gyda chwedlau a mythau Cymru, ei gwreiddiau Celtaidd, ei thraddodiadau a'i hen hanes – ac mae arnynt eisiau gwybodaeth gefndir am y diwylliant ac am y ffordd y mae'r bobl yn byw.

- Darparwch dywyslyfrau lleol i ardaloedd o ddiddordeb
- Trefnwch fod gennych gyfeirlyfrau am hanes Cymru a hanes y Cymry



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Rheoli Cyrchfannau Cymru

1	2	3	4	5	6	7	8	9
Eich cymuned a gwella bywyd gwyllt lleol								



Croeso  
Cymru

- Ceisiwch wybodaeth am ddigwyddiadau lleol; darparwch arweiniad i westeion am 'beth sy'n digwydd'
- Ystyriwch ystafelloedd â themâu i adlewyrchu'r fro, boed hen fwyngloddiau neu fytholeg!

## Cynnyrch a Chynhyrchion Cymru

Mae profi seigiau lleol unigryw yn rhan hanfodol o fwynhau gwyliau. Mae ymwelwyr yn arbennig o hoff o gael bwyd Cymreig ar y fwydlen, ac mae mwy a mwy ohonynt yn dewis llefydd i fwyta sy'n gweini seigiau unigryw wedi'u seilio ar gynnyrch lleol ffres, uwchlaw popeth arall.

O datws cynnar Sir Benfro i aeron sy'n tyfu yng nghysgod glaw Eryri, mae Cymru'n cynhyrchu cynhwysion o safon uchel sy'n sylfaen i farchnad fwyd ffyniannus.

- Gnewch eich cynhyrchion eich hun neu prynwch gynnyrch lleol
- Hyrwyddwch seigiau traddodiadol Cymru, fel cawl
- Darparwch wybodaeth am farchnadoedd ffermwyr
- Defnyddiwch ddeunyddiau, printiau a chelfwaith lleol i addurno ystafelloedd. Yn aml bydd tirwedd Cymru wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar artistiaid traddodiadol a chyfoes ac, felly, beth bynnag fo eich arddull, gallwch ddefnyddio celf a chrefftau lleol i ddatblygu naws lle. Mae hostel yn Sir Benfro wedi neilltuo lle bychan lle gall artistiaid lleol ddangos eitemau i'w gwerthu.